❖ Gweddi Nadolig

Tôn: M.20 neu 'Troyte'

Gynlluniwr y seren fu'n gwenu dros dir
Jwdea un noson yn dyner a chlir,
Tyrd eto i'n harwain dros lwybrau dy fyd
Fel t'wysaist Ti gamre'r tri doeth at y crud.

Greawdwr yr engyl fu'n canu un nos
I'r gwŷr a fugeiliai eu praidd ar y rhos,
Dwg atom genhadu y nef yn barhaus
I sôn am dy gariad mewn dyddiau trahaus.

Gynhaliwr 'r Un bychan ddaeth atom mewn cnawd,
Rho inni faddeuant am wrthod ein Brawd;
Anghofiwn am Fethlem yn nwndwr ein hoes,
A sen rown i'r Ceidwad aeth drosom i'r groes.

Gyfrannwr bendithion, rho ynom y ddawn
I dderbyn awdurdod ein Prynwr yn llawn,
A gweld ein hymddygiad ymffrostgar, di-ras,
Yn ymyl gwyleidd-dra a chariad y Gwas.

Glustfeiniwr gweddïau, rho ddyfnder i'n ffydd,
Ehanga ein cariad at Iesu bob dydd,
A boed i'w dangnefedd wyrdroi dynol-ryw
Gan lanw pob calon â gras wrth gyd-fyw.

Alice Evans